Datganiad Ysgol
Y Grant Datblygu Disgyblion

Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion ynghylch defnydd ein hysgol o'r GDD ar gyfer blwyddyn academaidd 2026 i 2027.

Mae'n amlinellu ein strategaeth, sut rydym yn bwriadu gwario'r cyllid yn y flwyddyn academaidd hon a'r effaith a gafodd gwariant y llynedd o fewn ein hysgol.

Os yw'ch rhifau yn 5 neu lai, defnyddiwch * yn lle'r dyraniad er mwyn diogelu plant rhag cael eu hadnabod.

Trosolwg Ysgolion

Manylion	**Data**
Enw'r ysgol	Ysgol Bro Tryweryn
Nifer y Disgyblion yn yr Ysgol	57
Cyfran (%) o ddisgyblion sy'n gymwys i'r GDD	X%
Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn	Medi 30 2026
Dyddiad y caiff ei adolygu	
Awdurdodwyd y datganiad gan	Arweinydd GDD yr ALl
Yn arwain ar y GDD	Awel Mai Jones
Llywodraethwr sy'n arwain	Angharad Davies

Trosolwg Cyllid

Manylion	**Swm**
Dyraniad cyllid GDD y flwyddyn academaidd hon	£X

Rhan A: Cynllun Strategaeth
Datganiad o fwriad

Nod yr ysgol yw sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle cyfartal i lwyddo a chyflawni ei lawn botensial, waeth beth fo'i gefndir economaidd-gymdeithasol. Mae ein strategaeth yn canolbwyntio ar leihau effaith anfantais drwy fynd i'r afael â rhwystrau i ddysgu, gwella presenoldeb a lles, a darparu cymorth wedi'i dargedu lle bo angen. Wedi'i seilio ar egwyddorion tegwch, cynhwysiant a disgwyliadau uchel, ein nod yw sicrhau bod pob disgybl yn cael y gefnogaeth a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i ffynnu yn academaidd, yn gymdeithasol ac yn emosiynol.

Canlyniadau a fwriedir

Mae hyn yn esbonio'r canlyniadau rydym yn anelu atynt **erbyn diwedd ein cynllun strategaeth presennol**, a sut y byddwn yn mesur a ydynt wedi'u cyflawni.

Canlyniad a fwriedir	Meini prawf llwyddiant
Datblygu sgiliau darllen plant PYD	Bydd canlyniadau profion cenedlaethol y plant targed yma'n gwella.
Darparu sesiynau meddwlgarwch a sgiliau bywyd er mwyn datblygu hyder plant PYD	Hyder a sgiliau bob dydd y plant yn datblygu.
Sesiynau ESLA ar gyfer rhai o'r plant PYD	Bydd agnhenion emosiynol yr uniogolion yn cael eu diwallu.

Gweithgarwch yn y flwyddyn academaidd hon

Mae hyn yn rhoi manylion sut rydym yn bwriadu gwario ein GDD **y flwyddyn academaidd hon** i gyflawni y canlyniadau a fwriedir a restrir uchod.

Er mwyn datblygu sgiliau darllen plant PYD, bydd yr ysgol yn darparu ymyraethau darllen wedi'u targedu ac yn monitro cynnydd yn rheolaidd. Bydd hyn yn cefnogi'r nod o wella canlyniadau profion cenedlaethol a sicrhau bod y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd. Erbyn diwedd y flwyddyn bydd y mwyafrif o'r disgyblion PYD wedi gwneud cynnydd disgwyliedig neu well yn eu sgiliau darllen. Bydd y rhan fwyaf yn dangos mwy o hyder wrth ddarllen ac yn gallu defnyddio eu medrau llythrennedd yn fwy effeithiol ar draws y cwricwlwm.

Bydd sesiynau meddylgarwch a sgiliau bywyd yn cael eu cynnal er mwyn datblygu hyder, gwydnwch ac annibyniaeth disgyblion PYD. Disgwylir i'r gweithgareddau hyn gryfhau eu sgiliau bob dydd, gwella eu lles a'u galluogi i ymgysylltu'n fwy hyderus gyda dysgu a bywyd ysgol. Erbyn diwedd y flwyddyn bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos hyder gynyddol a gwydnwch wrth wynebu heriau. Bydd llawer yn defnyddio strategaethau priodol y byddant wedi bod yn ei ymarfer yn ystod y sesiynau i reoli sefyllfaoedd anodd. Bydd y rhan fwyaf hefyd yn dangos mwy o annibyniaeth wrth gyflawni tasgau a gwneud dewisiadau ar lawr y dosbarth.

Yn ogystal, bydd sesiynau ELSA yn cael eu darparu i rai disgyblion PYD er mwyn cefnogi eu lles emosiynol a diwallu anghenion unigol. Bydd y gefnogaeth hon yn helpu'r disgyblion i ddatblygu strategaethau effeithiol ar gyfer rheoli emosiynau ac yn eu galluogi i feithrin a datblygu perthnasoedd cadarnhaol. Erbyn diwedd y flwyddyn, bydd llawer o'r disgyblion sy'n derbyn cefnogaeth ELSA yn dangos gwell lles emosiynol ac yn gallu adnabod a rheoli eu hemosiynau'n fwy effeithiol. Bydd y mwyafrif yn dangos gwelliant yn eu perthynas ag eraill ac yn cymryd rhan yn fwy cadarnhaol mewn bywyd a dysgu yn y gwersi.

Bydd y gweithgareddau hyn yn cael eu cynllunio ar draws yr ysgol gyfan, gyda ffocws penodol ar anghenion disgyblion sy'n gymwys i gael PYD. Trwy wneud hyn, byddwn yn sicrhau eu bod yn elwa'n uniongyrchol o'r cyllid a'r gefnogaeth ychwanegol. Bydd effaith y ddarpariaeth yn cael ei monitro a'i gwerthuso'n rheolaidd gan arweinwyr yr ysgol drwy ddadansoddi data, craffu ar waith disgyblion, cynnal gweithgareddau monitro ac ystyried llais y disgyblion a'u rhieni. Bydd hyn yn sicrhau bod y grant yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol er mwyn cyflawni'r deilliannau a fwriedir.

Dysgu ac addysgu

Cost wedi'i chyllidebu: £ X

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
Ariannu cymhorthydd addysgu ychwanegol i ddarparu cymorth wedi'i dargedu mewn darllen, rhifedd, datblygu iaith, Makaton a ffoneg sylfaenol, ynghyd â chefnogaeth emosiynol ac ymddygiadol i ddisgyblion sy'n wynebu rhwystrau i ddysgu a gwneud cynnydd, gan gynnwys disgyblion PYD.	Mae ymchwil yn dangos bod ymyraethau wedi'u targedu gan staff cymorth hyfforddedig yn gallu cael effaith gadarnhaol ar gynnydd academaidd disgyblion, yn enwedig ym maes llythrennedd a rhifedd. Mae cefnogaeth gynnar i ddatblygu iaith, cyfathrebu a ffoneg yn hanfodol i adeiladu sylfeini cadarn ar gyfer dysgu yn y dyfodol. Yn ogystal, mae darparu cymorth emosiynol ac ymddygiadol priodol yn gwella lles disgyblion, yn lleihau rhwystrau i ddysgu ac yn eu galluogi i gymryd rhan yn fwy effeithiol yn y dosbarth a bywyd yr ysgol. Mae'r dull hwn yn cyfrannu at wella canlyniadau a chau'r bwlch rhwng disgyblion sy'n wynebu anfantais a'u cyfoedion.

Ysgolion Bro (i gynnwys: (i) meithrin partneriaethau cryf gyda theuluoedd; (ii) ymateb i anghenion y gymuned; (iii) cydweithio'n effeithiol â gwasanaethau eraill)

Cost wedi'i chyllidebu: £ X

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
Llunio llawlyfr darllen i rieni sy'n cynnwys syniadau ymarferol ac	Mae ymchwil yn dangos bod ymgysylltiad rhieni â dysgu eu plant yn cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad, hyder a lles disgyblion. Mae darparu adnoddau a chefnogaeth i deuluoedd yn eu helpu i gefnogi

enghreifftiau o weithgareddau i hybu darllen yn y cartref. Cynnal nosweithiau gwybodaeth a digwyddiadau agored i rieni, gyda mewnbwn gan arbenigwyr a gwasanaethau partner megis gwasanaethau lles, y gwasanaeth awtistiaeth, nyrs ysgol a chyrff cymorth eraill, er mwyn cryfhau partneriaethau rhwng yr ysgol, teuluoedd a'r gymuned.	dysgu yn y cartref yn fwy effeithiol. Yn ogystal, mae cydweithio â gwasanaethau arbenigol a sefydliadau cymunedol yn galluogi ysgolion i ymateb yn well i anghenion teuluoedd a sicrhau bod y gefnogaeth briodol ar gael i blant a rhieni pan fo angen.

Strategaethau ehangach (er enghraifft a lle bo hynny'n berthnasol, lechyd a Lles, Cwricwlwm a Chymwysterau, Arweinyddiaeth a Chodi Dyheadau)
Cost wedi'i chyllidebu: £ X

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
Lleihau rhwystrau i gyfranogiad mewn ymweliadau addysgol a phrofiadau preswyl ym Mlwyddyn 6 drwy ddefnyddio'r GDD i gefnogi dysgwyr sy'n gymwys i'r grant, gan sicrhau mynediad teg at gyfleoedd cyfoethogi	Drwy ddadansoddi data cyfranogiad mewn gweithgareddau cyfoethogi, nodwyd nad oedd pob dysgwr yn gallu manteisio'n gyfartal ar ymweliadau addysgol a phrofiadau preswyl. Roedd adborth gan deuluoedd a dadansoddiad o rwystrau i gyfranogiad yn awgrymu y gallai cost fod yn ffactor i rai dysgwyr a theuluoedd. Mewn ymateb, bydd yr ysgol yn defnyddio'r GDD i sicrhau bod dysgwyr sy'n gymwys i'r grant yn gallu cymryd rhan lawn mewn ymweliadau addysgol a'r ymweliad preswyl diwedd cyfnod ym Mlwyddyn 6. Mae ymchwil yn dangos bod profiadau cyfoethogi yn cefnogi datblygiad sgiliau personol, hyder, gwytnwch a chydweithio, gan gyfrannu hefyd at ymgysylltiad â dysgu a lles. Mae Estyn yn nodi bod mynediad at brofiadau eang a pherthnasol yn helpu i ehangu gorwelion a chefnogi datblygiad pob dysgwr. Mesurir effaith drwy fonitro cyfranogiad dysgwyr, adborth gan ddisgyblion a theuluoedd, a gwelliannau mewn hyder, lles ac ymgysylltiad â bywyd yr ysgol.

Cyfanswm cost y ceisiadau: £ **2,300**

Rhan B: Adolygiad o ganlyniadau'r flwyddyn academaidd flaenorol

Canlyniadau'r GDD

Mae hyn yn rhoi manylion yr effaith a gafodd ein gweithgarwch GDD ar ddisgyblion ym mlwyddyn academaidd 2025 i 2026.

Gweithgarwch	Effaith

Rhyddhau cymhorthydd i ymweld ag ysgol arall yn dilyn cyngor gan athrawes arbenigol er mwyn arsylwi a rhannu arferion effeithiol. Buddsoddi mewn adnoddau i sefydlu gofod lles pwrpasol ar gyfer cefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion. Darparu hyfforddiant *Rydw i'n Gallu* ym maes iaith a rhifedd er mwyn uwchsgilio staff a datblygu eu hyder wrth gynllunio a chyflwyno ymyraethau wedi'u targedu. Yn ogystal, rhyddhau staff i fynychu hyfforddiant y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd er mwyn cryfhau gwybodaeth ac arbenigedd yr ysgol wrth gefnogi disgyblion ag anghenion ychwanegol.	Defnyddiwyd y cyllid i gryfhau darpariaeth ADY a lles yr ysgol drwy ddatblygu medrau staff, sefydlu gofod lles pwrpasol a mabwysiadu arferion effeithiol a welwyd mewn ysgolion eraill. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar y disgylbion gyd llawer o'r platn targed yn gallu adnabod eu teimladau yn well ac yn dysgu sut i ymateb iddynt yn gadarnhaol. Cafodd staff fynediad at hyfforddiant perthnasol mewn iaith, rhifedd ac ADY, gan gynyddu eu gwybodaeth, eu harbenigedd a'u hyder wrth gefnogi disgyblion ag anghenion amrywiol. O ganlyniad, mae staff yn fwy hyderus wrth gynllunio a darparu ymyraethau wedi'u targedu ac wrth ymateb i anghenion unigol disgyblion. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar y dysgwyr gyda llawer o'r disgylbion oedd yn derbyn cymorth wedi ei dargedu yn dechrau gwneud cynnydd tuag at eu targedau unigol. Mae'r datblygiadau hyn wedi cyfrannu at wella ansawdd y ddarpariaeth, yn enwedig ym maes lles emosiynol, gan sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad at gymorth mwy effeithiol ac wedi'i deilwra i'w hanghenion. Mae'r gallu cynyddol ymhlith staff hefyd yn helpu i sicrhau bod y gwelliannau hyn yn gynaliadwy ac yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar brofiadau a chynnydd disgyblion.

Rhaglenni a ddarperir yn allanol

Dylech gynnwys enwau unrhyw raglenni a brynwyd gennych yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol. Bydd hyn yn ein helpu i ganfod pa rai sy'n boblogaidd yng Nghymru.

Rhaglen	Darparwr
Reading Eggs	3P Learning
ELSA	Lighthouse psychology training
Darllen Co	Darllen Co
TT Rockstars	Maths Circle
Rydw i'n gallu	

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

Byddwn yn derbyn hyfforddiant arbenigol mewn sesiynau ar ôl ysgol gan Tîm Emrallt ac am effaith trawma gan y seicolegydd addysg ysgolion. Byddwn yn cydweithio'n agos iawn gyda athrawon arbenigol ac yn gweithredu ar dargedau sy'n cael eu

gosod gan arbenigwyr yn eu maes sy'n gweithi'n uniongyrchol a'r disgyblion dan sylw.